Dewch i ymuno yn sesiwn stori anferthol Diwrnod y Llyfr 2011

Mae pedair stori wedi'u comisiynu a'u darlunio'n arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr 2011. Gyda chefnogaeth ysgolion Cymru, gobeithiwn greu **sesiwn stori anferthol** ar 3 Mawrth 2011!

Stori Gymraeg ar gyfer plant 7 i 9 oed
'Y Daten Ddieflig Ddrwg' gan Morgan Tomos

Mae'r Daten Ddieflig Ddrwg a'i bryd ar reoli'r byd! Gyda help ei byddin o domatos coch, deg taten arall a dwy sosej, mae pethau'n edrych yn addawol ond yna . . . daw'r fforc i newid trywydd y stori!

Stori Saesneg ar gyfer plant 7 i 9 oed
'The Sleeper' gan Ruth Morgan

Beth yw cyfrinach y cerflun pren rhyfedd sy'n eistedd mewn bocs yn neuadd yr ysgol? A oes ganddo'r gallu i droi breuddwyd yn ffaith? A fydd bywyd yr ysgol yn newid am byth o'i achos, a pham mae'r arolygwyr wedi'i anfon i'r ysgol yn y lle cyntaf?

Stori Gymraeg ar gyfer plant 9 i 11 oed
'Hunangofiant Bachgen Drwg' gan Nicholas Daniels

Mae'r disgyblion drwg yn cael eu hanfon i lyfrgell yr ysgol er mwyn 'callio'. Mae eu troseddau'n amrywio ond dim ond un ohonyn nhw fydd yn elwa o'r 'Cyfnod Callio'. Pwy fydd hwnnw, tybed? Beth oedd wedi'i wneud o'i le, a beth fydd yn ei ddarganfod yn y llyfrgell?

Stori Saesneg ar gyfer plant 9 i 11 oed
'Go, Charlie Hide, Go!' gan Paul Manship

Bachgen bach ofnus iawn yw Charlie Hide, a does neb yn ei gredu pan fydd yn honni ei fod yn arwr o fri! Ond pan ddaw Molock, yr anghenfil sy'n byw yn y gamlas, i fygwth disgyblion yr ysgol, caiff Charlie gyfle i brofi ei allu anhygoel!

Bydd PODLEDIAD o'r storïau, yn cael eu darllen gan storïwr proffesiynol, ar y wefan (http://bit.ly/diwrnodyllyfr) ym mis Chwefror, ac fe'u hanfonir trwy e-bost i'r ysgolion cynradd ar ffurf dogfen Word neu pdf cyn gwyliau hanner tymor y gwanwyn.

Gobeithiwn y bydd nifer dda o ysgolion yn gwylio neu yn darllen y storïau ar Ddiwrnod y Llyfr – 3 Mawrth 2011 – er mwyn ymuno yn y sesiwn stori anferthol.

Er mwyn i ni gael syniad faint o blant fydd yn ymuno yn y sesiwn, anfonwch enw eich ysgol a nifer y plant fydd yn cymryd rhan at eirlys.parry@cllc.org.uk, neu dorri'r darn isod a'i anfon yn ôl at Eirlys Parry, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 4 Chwefror 2011. Diolch yn fawr.

✂----------

Byddwn yn ymuno yn sesiwn stori anferthol Diwrnod y Llyfr 2011

Enw'r Ysgol: _____

Sir: _____ Nifer y plant fydd yn cymryd rhan: _____

An invitation to join an enormous story session on World Book Day 2011

Four illustrated stories have been commissioned especially for World Book Day 2011. With the support of schools in Wales, we hope to create an **enormous story session** on 3 March 2011!

English-language story for 7 to 9 year-olds
'The Sleeper' by Ruth Morgan

What is the secret of the strange wooden carving that sits in the school hall? Does it have the power to make dreams come true? Will school life change for ever because of it, and why did the inspectors send it to the school in the first place?

Welsh-language story for 7 to 9 year-olds
'Y Daten Ddieflig Ddrwg' by Morgan Tomos

The fiendishly bad potato wants to rule the world! With the help of his army of red tomatoes, ten other potatoes and two sausages, things look promising but then . . . along comes the fork and the whole story changes!

English-language story for 9 to 11 year-olds
'Go, Charlie Hide, Go!' by Paul Manship

Charlie Hide is a timid little boy and no one believes him when he says that he's a superhero! But when Molock, the creature that lives in the canal, threatens the pupils at his school, Charlie has a golden opportunity to prove to everyone that he really is a superhero!

Welsh-language story for 9 to 11 year-olds
'Hunangofiant Bachgen Drwg' by Nicholas Daniels

Naughty pupils are sent to the school library in order to improve their ways. The mischief that they have done varies but only one of them will benefit from the 'Better Behaviour' session. Who will it be? What did he do wrong, and what did he discover in the library?

PODCASTS of the stories, being read by a professional storyteller, will be available on the website (http://bit.ly/worldbookday) in February, and the stories will be e-mailed to primary schools as Word documents or pdfs before the spring half term holiday.

We hope that a large number of schools will watch or read the stories on World Book Day – 3 March 2011 – in order to join the enormous story session.

Please help us to find out how many children will be joining the session by sending the name of your school and the number of children taking part to eirlys.parry@wbc.org.uk, or cut out the slip below and post it to Eirlys Parry, Welsh Books Council, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, by 4 February 2011.

✂----------

We will be joining the enormous story session on World Book Day 2011

School Name: _____

County: _____ Number of children taking part: _____